| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| **DYDDIAD** | **27 Mai 2021** |
| **TEITL** | **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru) 2021** |
| **Amcan** | **Ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i'r Rhaglen Waith arfaethedig yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar y 4ydd o Fawrth 2021** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo y Rhaglen Waith drafft ar gyfer gweithredu'r Ddeddf** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

**1. Rhagarweiniad**

1.1 Mae cryn hanes i'r Ddeddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau ( Cymru) 2021 sydd a'i wreiddiau ym Mil Lywodraethol Leol ( Cymru) gyflwynwyd gan y cyn Weinidog Lywodraeth Leol Leighton Andrews yn 2015. Ers hynny mae sawl newid a datblygiad yn amcan y Deddfwriaeth a'r pwyslais. Y prif newid yw'r tynnu yn ôl oddi wrth Ddeddf oedd a'i ffocws ar ad-drefnu y Cynghorau boed yn wirfoddol neu drwy statud. Mae'n debyg y cofiwch yr ymgynghoriadau fu gerbron yn ystod y daith yma.

1.2 Bellach er fod darpariaethau yn y Ddeddf yn creu fframwaith ar gyfer uno cynghorau nid yw yn cynrychioli prif amcan y ddarpariaeth. Gerbron mae deddfwriaeth sydd yn cyflwyno nifer o newidiadau a grymoedd ynglŷn a llywodraethant Llywodraeth Leol yng Nghymru. Nid yw hyn i ddweud nad oes elfennu o'r Ddeddf sydd yn bellgyrhaeddol yn arbennig felly ym maes Etholfraint Llywodraeth Leol , Cyd Weithio a Rheoli Perfformiad. Adroddwyd ar y Ddeddf i'r Cyngor ym Mis Mawrth gan ofyn i'r Pwyllgor yma gadw trosolwg o'r gwaith.

2. **Y Ddeddf**

2.1 Derbyniodd y Ddeddf Gyd-Syniad brenhinol ar yr 20fed o Ionawr 2021 . Mae naw prif ran i'r Ddeddf sydd yn berthnasol i Brif Gynghorau Cynghorau Tref a Chymuned ac Awdurdodau eraill. Mae rhai darpariaethau mewn grym eisoes ond yn disgwyl ar gyhoeddi rheoliadau neu arweiniad statudol perthnasol.

RHAN 1 - ETHOLIADAU
RHAN 2 – PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL I AWDURDODAU LLEOL
RHAN 3 - HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL
RHAN 4 – GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL
RHAN 5 – CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU
RHAN 6 – PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU PRIF GYNGHORAU
RHAN 7 – UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD
RHAN 8 – CYLLID LLYWODRAETH LEOL
RHAN 9 – AMRYWIOL

3. **Risigiau**

Mae'r Deddf eisoes wedi ei gosod o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol oherwydd ei arwyddocâd. Fodd bynnag mae rhai elfennau fydd angen ystyriaeth mwy manwl yn benodol -Cyd Bwyllgorau Corfforaethol.

Mae gwaith datblygu i'w wneud ar y model a disgwylir rheoliadau newydd fydd yn manylu mwy ar y gyd berthynas ffurfiol rhwng y cyrff yma a Cynghorau. Mae gofyn rhoi sylw i;

- y berthynas rhwng y Cynghorau a'r CBC
- rôl Pwyllgorau Craffu yr Awdurdodau Lleol yn eu llywodraethiant?
- yr oblygiadau ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Cynllun Twf.

Yn dilyn cadarnhad y Pwyllgor o'r Rhaglen waith bwriedir adroddi 'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol ar y risgiau yma gyda bwriad o fireinio y risgiau a'r atebion posib.

4. **Camau Nesaf.**

Mae'r Rhaglen Waith arfaethedig wedi ei atodi yn Atodiad 1. Mae ystod y darpariaethau yn y Ddeddf yn golygu y bydd cyfres adroddiadau i 'r Cyngor, Cabinet Phwyllgorau perthnasol. Mae elfennau o'r gwaith eisoes ar y gweill. Mae cyfnod amserlen grymuso y darpariaethau ac amrywiaeth eu ystod yn arwain at broses o'r math yma. Mae gweithgor swyddogion eisoes wedi cychwyn ar y gwaith yma.

**PENDERFYNIAD A GEISIR**

**Cymeradwyo y Rhaglen Waith a gofyn am ddiweddariad i gyfarfod y Pwyllgor yn Hydref 2021**